

Cynllun Rhanbarthol GwE ar gyfer Codi Cyrhaeddiad PMG mewn Ysgolion Ebrill 2015 – Mawrth 2016

Mae 'Cymwys am Oes – cynllun gwella addysg ar gyfer dysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' yn datgan ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi safonau, ac yn egluro'r weledigaeth y bydd "pob dysgwr yn mwynhau dysgu sy'n eu hysbrydoli i lwyddo" Mae GwE, ynghyd â chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru fel rhan o'u rôl fel rhieni corfforaethol, yn rhannu'r amcan hwn – **"bod pob plentyn a pherson ifanc, waeth beth fo'u cefndir a'u man cychwyn mewn bywyd, yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol"**. Rhan o strategaeth rhianta corfforaethol yr awdurdodau lleol yw sicrhau bod cynllun priodol yn ei le er sicrhau bod pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal yn gwireddu ei botensial.

Mae tystiolaeth glir sy'n dangos nad yw'r system addysg genedlaethol yn llwyddo i gefnogi plant sy'n derbyn gofal (PMG) yn effeithiol. Fel grŵp, cânt brofiadau anfodhaol ac o ganlyniad i hyn mae cyfraddau eu cyrhaeddiad addysgol yn sylweddol is na chyfraddau cyrhaeddiad plant eraill yn y prif lif. Dywed Estyn y bu peth cynnydd mewn ysgolion yng Nghymru o ran cefnogi PMG i gyflawni eu potensial academaidd, ond bach yw'r effaith ac mae angen cyflymu'r gwelliant.

Arferai cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion, sy'n anelu at gefnogi addysg PMG, gael ei ddyrannu yn uniongyrchol i ysgolion ar sail swm penodedig o arian fesul disgybl, gyda'r cyllid yn dilyn y dysgwr. Mae LIC, AauLl ac ysgolion o'r farn nad yw hyn yn effeithiol o ran cyflwyno tystiolaeth o wella deilliannau addysgol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod cyfnod o amser rhwng casglu data a dyrannu cyllid a bod hyn yn creu rhwystr i roi ymyriadau effeithiol ac amserol ar waith. Cred LIC fod angen gweithio mewn dull mwy cyfannol a strategol wrth ddyrannu cymorth ariannol.

O 2015-16, bydd Llywodraeth Cymru yn ailgyfeirio dyraniad cyllid y GAD i'r consortia addysg rhanbarthol, a fydd yn gyfrifol am sicrhau bod cefnogaeth sydd wedi'i thargedu yn cael effaith go iawn sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyrhaeddiad addysgol plant PMG. Gyda'n gilydd, mae arnom angen cytuno ar amcanion strategol o'r lefel uchaf i yrru'r agenda hon a darparu fframwaith ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, a fydd yn:

- Codi dyheadau a chyrraeddiad addysgol PMG a gallu'r rhai hynny sy'n gofalu amdanynt i gefnogi eu datblygiad addysgol;
- Atgyfnerthu cyd-atebolrwydd ac arweinyddiaeth effeithiol ar draws Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach ac uwch gyda golwg ar ddeilliannau addysgol PMG;
- Gwneud addysg yn flaenoriaeth ac yn bwynt ffocws, yn enwedig yn ystod y cyfnodau anodd ac ansicr hynny sy'n gallu digwydd ym mywyd PMG;
- Adnabod data a fydd yn gymorth gydag arfer, creu polisiau a monitro deilliannau addysgol;
- Sicrhau bod arfer ragorol yn cael ei hadnabod, ei hybu a'i rhannu

Mae angen i ni weithredu yn effeithiol ac mewn modd cynaliadwy er mwyn mynd i'r afael â thanberfformiad disgyblion PMG

Mae ein cynllun rhanbarthol ar gyfer codi cyrhaeddiad PMG yn ein hysgolion yn seiliedig ar ddogfen ymgynghori LIC – *Codi uchelgeisiau a chyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru* – a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015. Rhoddir ystyriaeth hefyd i Adroddiad Blynyddol diweddaraf Estyn a'r canfyddiadau o ran arfer orau mewn ysgolion yng Nghymru. Mae'r cynllun hefyd yn unol â model cenedlaethol LIC ar gyfer gweithio'n rhanbarthol ac yn rhan o Gynllun Busnes GwE ar gyfer 2015/16, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru. Trafodwyd syniadau cychwynnol y cynllun hwn yn wreiddiol mewn cyfarfod ymgynghori yn Llanfair-ym-Muallt ym mis Ionawr 2015. Mynychodd 5 cydlynnydd PMG AauLl gogledd Cymru ac arweinydd tlodi a difreintedd rhanbarthol GwE y cyfarfod ymgynghori hwn, ac fe'i datblygwyd ymhellach mewn cyfarfod dilynol yn Llandudno ym mis Mawrth. Gwerthfawrogwyd cefnogaeth ac anogaeth swyddogion perthnasol LIC yn y ddau gyfarfod.

Ffocws y ddau gyfarfod ymgynghori hwn oedd yr hyn sy'n gweithio yn dda ar hyn o bryd ac sy'n cyflawni deilliannau cadarnhaol ar gyfer disgyblion PMG yn ysgolion gogledd Cymru, a'r hyn ellir ei wneud i wella ymhellach eu profiadau addysgol a'u deilliannau. Yn yr ail gyfarfod, cyfoethogwyd y drafodaeth gan gynrychiolwyr o ysgolion ac asiantaethau eraill.

O ganlyniad, bydd GwE a'r awdurdodau lleol yn ymrwmo i:

- Adnabod y camau ymarferol sy'n angenrheidiol i oresgyn rhwystrau cyflawni a'u gweithredu
- Herio tanberfformiad yn gadarn
- Sicrhau eglurder ac aliniad o ran disgwyliadau allweddol ym maes cefnogi PMG
- Rhannu arfer dda a sicrhau bod y dehongliad o ganllawiau presennol yn gyson ar draws y rhanbarth
- Sicrhau bod deilliannau yn cael eu monitro yn well ar gyfer cyllid sy'n cefnogi PMG

Bydd GwE, ar y cyd â'r cydlynwyr PMG o bob Awdurdod, yn goruchwyllo a chydlynw'r cynllun rhanbarthol a bydd pawb yn cydweithio fel grŵp. Bydd adroddiadau ar gynnydd yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd i Lywodraeth Cymru ac i Fwrdd Rheoli GwE. Bydd tair lefel o gefnogaeth ar gyfer PMG y rhanbarth:

- Datblygu agwedd ysgol-gyfan
- Datblygu agwedd ysgol-i-ysgol
- Agwedd sy'n unigryw i'r unigolyn, pan fo angen

Datblygu agwedd ysgol-gyfan

Mae Adroddiad Blynyddol Estyn ar gyfer 2013-14, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2015, yn datgan bod y nodweddion a ganlyn yn gyffredin i ysgolion sy'n cefnogi dysgwyr bregus yn effeithiol, gan gynnwys PMG:

- Gweithredir ystod o ddulliau a strategaethau yn yr ysgol - nid 'un ateb sy'n addas i bawb'
- Mae cysondeb mewn dulliau gweithredu ar draws yr ysgol – mae'r holl staff, gan gynnwys cynorthwylwyr addysgu a goruchwylwyr amser cinio, yn wybodus ac yn gallu cefnogi dysgwyr bregus yn briodol
- Mae gan un aelod allweddol o staff gyfrifoldeb arweiniol dros ddysgwyr bregus, sy'n gallu hyfforddi a chefnogi cydweithwyr ar draws yr ysgol yn ogystal â bod yn gyswllt cyntaf ar gyfer y dysgwyr eu hunain

Bydd ein cynllun yn ymgorffori'r athroniaeth hon drwy gyflwyno rhaglen o hyfforddiant ysgol-gyfan ar ymyriadau sydd â hanes o fod yn rhai llwyddiannus. Mae gan bob ALI yn y rhanbarth raglenni hyfforddiant sydd ar gael i staff ysgol ar hyn o bryd, ond nid yw pob rhaglen ar gael i bob ysgol ar draws y rhanbarth. Byddwn yn gweithio ar y cyd â

gwasanaethau ymgynnwys a gwasanaethau ieuencid yr AauLl er sicrhau mynediad cyfartal i arlwy cynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer pob ysgol sydd â PMG wedi'u cofrestru ar eu llyfrau. Trwy weithio gyda'r Pennaeth, darperir adnoddau, cymorth a hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar sgiliau i gefnogi PMG yn effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod cyfleodd dysgu proffesiynol penodol ar reoli ymddygiad heriol ac adnabod anghenion plant sy'n dioddef o drawma a materion sy'n ymwneud ag ymlyniad.

Byddai manteision yr agwedd hon hefyd yn cynnwys:

- rhaglen gymorth sy'n fwy cynaliadwy mewn ysgolion. Trwy uwchsgilio staff i ddefnyddio'r strategaethau mwyaf effeithiol i gefnogi PMG yn eu hysgol, gellir parhau â hyn pan ddaw cyllid y grant i ben.
- rhaglen gymorth sy'n ymestyn yn ehangach oddi mewn i ysgolion. Byddai dysgwyr bregus eraill yn elwa ar y strategaethau a ddefnyddir, nid yn unig PMG – e.e. plant wedi'u mabwysiadu, ceiswyr lloches, rhai plant hPYD

Datblygu agwedd ysgol-i-ysgol

Mae cydweithio rhwng ysgolion wrth wraidd blaengareddau cenedlaethol diweddar, ac mae'n rhan annatod o Gynllun Busnes presennol GwE. Rydym yn cydnabod bod gan nifer o ysgolion arfer effeithiol ac rydym yn awyddus i ddefnyddio hyn i gefnogi ysgolion eraill yn y rhanbarth a thu hwnt. Mae gan gydlynwyr PMG o bob Awdurdod ran bwysig mewn adnabod hyn, tra bo rôl GwE yn cynnwys hwyluso rhannu'r arfer orau hon ar lefel ranbarthol. Bydd dull gweithredu yr Ysgolion Cyd-arweiniol yn cael ei ymestyn i gynnwys arfer effeithiol mewn strategaethau ysgol-gyfan i gefnogi PMG, a bydd cyllid yn cael ei ddyrannu yn briodol i'r Ysgolion Cyd-arweiniol weithredu fel hybiau i gefnogi ysgolion eraill yn y rhanbarth.

Bydd cydlynwyr PMG o bob Awdurdod yn parhau i ddatblygu a chefnogi rhwydweithiau isranbarthol, a bydd y rhain yn fforymau i rannu arfer effeithiol ymhellach yn ogystal â bod yn gymorth i ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion. Mae hyn hefyd wedi'i alinio efo'r dull gweithredu y cytunodd chwe ALI Gogledd Cymru arno ar gyfer cyflawni'r Model Cenedlaethol - h.y. arweinyddiaeth a chydlynu rhanbarthol yn cefnogi cyflawni yn lleol.

Agwedd sy'n unigryw i'r unigolyn, pan fo angen

Bydd ar rai PMG angen cefnogaeth arbenigol mewn maes arbennig, neu a fydd yn elwa ar gael cyfleoedd penodol i ddatblygu eu potensial addysgol ymhellach. Credwn ei bod yn bwysig bod hyblygrwydd yn ein cynllun i ddarparu ar gyfer anghenion o'r fath. Felly, bydd swm o arian y cytunwyd arno yn cael ei gadw ar wahân er mwyn ei neilltuo i achosion o'r fath. Rhoddir blaenoriaeth i PMG Blwyddyn 6 a Blwyddyn 11 i hwyluso eu trosglwyddiad i gam nesaf eu taith addysgol. Bydd pob achos yn cael sylw'r grŵp Cydlynwyr PMG rhanbarthol, a fydd yn trafod ac yn ymateb yn briodol yn unol ag angen; bydd hwn, o'r herwydd, yn gweithredu fel panel cymedroli rhanbarthol.

Monitro'r cynllun rhanbarthol

Bydd y cynllun yn cael ei fonitro gan:

- Gydlynwyr PMG ym mhob Awdurdod, a fydd yn parhau yn eu rôl bresennol o fonitro'r ddarpariaeth a deilliannau pob PMG yn eu ALI eu hunain
- Ymgynghorwyr Her GwE, fel rhan o'u rôl yn monitro a herio perfformiad ysgol a darpariaeth. Byddant yn sicrhau bod targedau heriol priodol yn cael eu gosod ar gyfer PMG, yn unol â photensial
- Cydlynwdd PMG pob Awdurdod, ynghyd ag arweinydd strategol GwE ar gyfer tlodi a difreintedd. Byddant yn cyfarfod yn rheolaidd fel y grŵp monitro rhanbarthol i adolygu'r cynnydd yn erbyn deilliannau â tharged y cynllun
- Bydd adroddiadau yn cael eu cyflwyno yn rheolaidd i UDA GwE, y Bwrdd Rheoli, y Grŵp Defnyddwyr a'r Cyd-bwyllgor yn ogystal â LIC. Bydd Bwrdd Rheoli GwE wedyn yn rhannu'r adroddiadau cynnydd â grwpiau strategol rhianta corfforaethol yr Awdurdodau.